

No.

CABINET

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 25 Hydref, 2021.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd N. Moore (Cadeirydd); Cynghorydd L. Burnett (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr B.T. Gray, P.G. King, K.F. McCaffer, M.R. Wilkinson and E. Williams.

C700 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

C701 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Hydref, 2021 fel cofnod cywir.

C702 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

C703 RHWYDWAITH TEITHIO GWEITHREDOL – PROSES YMGYNGHORI STATUDO (CYF) –

Cafodd safbwyntiau Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio 21 Medi, 2021 eu cyflwyno i'r Cabinet fel y'u cynhwysir yn yr agenda.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth wrth y Cabinet y byddai'n gofyn i'r Cabinet nodi'r sylwadau ond y byddai'n manteisio ar y cyfle i annog unrhyw un o drigolion Bro Morgannwg i edrych ar y mapiau ar y wefan a rhoi sylwadau arnynt. Wrth gyfeirio at farn y Pwyllgor Craffu, dywedodd yr Arweinydd fod gan y Cyngor strategaeth ar hyn o bryd ar gyfer adnewyddu coed. Byddai'r Cabinet hefyd yn cefnogi'r farn o gymryd agwedd mwy cyfannol at wneud mwy o ddefnydd o lonydd beicio, a nododd fod y pwyllgor yn amlwg yn cefnogi'r cysylltiad rhwng Y Barri a Dinas Powys.

Dywedodd yr Arweinydd i gloi fod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar derfynau cyflymder o 20 mya ar ffyrdd, a'i fod wedyn yn cael ei ystyried.

No.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried y cyfeirnod

PENDERFYNWYD – BOD barn y Pwyllgor Craffu yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r broses ymgynghori.

Y rheswm dros y penderfyniad

O ystyried cynnwys y cyfeirnod a'r adroddiad a'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd o fewn y Cyngor.

**C704 DIWEDDARIAD CHWARTER 1 Y GOFRESTR RISG
GORFFORAETHOL (CYF) -**

Roedd y cyfeirnod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 23 Medi 2021 wedi'i gyflwyno i'w ystyried fel y'i cynhwysir yn yr agenda.

Awgrymodd yr Arweinydd, wrth dynnu sylw at y ffaith bod adroddiad diweddarau Chwarter 1 y Gofrestr Risg Gorfforaethol hefyd wedi'i gynnwys yn agenda'r Cabinet yn Eitem 8, y dylid nodi'r cyfeirnod ar hyn o bryd ond yn derbyn yr angen i'r Cyngor gadw llygad ar gostau, anghenion y gweithlu a demograffeg yn y dyfodol.

Yna

PENDERFYNWYD – BOD sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael eu hystyried ynghyd â'r adroddiad ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ar gyfer Chwarter 1 o dan Eitem 8 ar yr Agenda.

Y rheswm dros y penderfyniad

O ystyried cynnwys y cyfeirnod a'r adroddiad a ystyriwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 23 Medi 2021.

C705 PWYLLGOR CYNGHORI BAE CAERDYDD –

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Bae Caerdydd a gynhaliwyd ar 8 Medi 2021 fel y'u nodwyd yn yr agenda.

Tynnodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio sylw at y diweddariad defnyddiol a ddarparwyd yn y cyfarfod ar Forglawdd Caerdydd.

PENDERFYNWYD – nodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Bae Caerdydd a gynhaliwyd ar 8 Medi, 2021.

Y rheswm dros y penderfyniad

O nodi'r cofnodion

**C706 PROSIECT SERO – CYFLAWNI'R CYNLLUN HER NEWID
HINSAWDD (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU
CORFFORAETHOL / AMGYLCHEDD AC ADFYWIO) -**

Dechreuodd yr Arweinydd drwy ddweud bod yr adroddiad yn manylu ar y trefniadau llywodraethu arfaethedig ar gyfer Prosiect Sero, ac fel rhan o'r trefniadau llywodraethu sefydlwyd Bwrdd Prosiect Sero i fwrw ymlaen â'r Cynllun Her Newid Hinsawdd, ac roedd cynllun prosiect cychwynol wedi'i ddatblygu.

Roedd y Bwrdd wedi cyfarfod ac wedi ystyried yr heriau a'r camau cysylltiedig a nodwyd yn y Cynllun ac roedd yr Uwch Swyddogion Adrodd wedi cael y dasg o ddatblygu'r trefniadau angenrheidiol i ddatblygu eu meysydd cyfrifoldeb. Byddai amserlenni a dulliau gweithredu yn amrywio ond byddai'r Bwrdd yn cyfarfod bob deufis i ystyried cynnydd. Byddai'r Bwrdd yn sicrhau bod y gwaith a wneir fel rhan o Brosiect Sero yn cyd-fynd â'r ymateb i'r argyfwng natur a ddatganwyd gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2021.

Tynnodd yr Arweinydd sylw at y 18 her a luniwyd o amgylch yr angen i ddangos arweiniad cryf i'r Cyngor gyflawni ei gyfrifoldebau i genedlaethau'r presennol a chenedlaethau'r dyfodol ac i wneud gwahaniaeth.

Tynnodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac lechyd sylw at y ffaith ei fod yn adroddiad da a chyfeiriodd at bolisiâu, cynlluniau a strategaethau'r Cyngor a fyddai â rôl hollbwysig yng ngwaith y Cyngor i addasu i effaith newid yn yr hinsawdd a'i liniaru fel y nodir ym mharagraff 2.5 yr adroddiad. Tynnodd yr Aelod Cabinet sylw hefyd at y ffaith y byddai angen datblygu adeiladau ym Mro Morgannwg o hyd mewn ardaloedd lle byddai angen ystyried cynigion cynllunio, a chyfeiriodd at yr angen i sicrhau eu bod yn cael eu trin yn effeithiol ac yn gyfiawn.

Mewn ymateb, dywedodd yr Arweinydd nad oedd y trefniadau'n golygu bod angen i'r Cyngor newid popeth a wnâi gan y byddai'n dal i orfod rhoi sylw i'w gyfrifoldebau statudol eraill.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio ei bod hefyd yn falch o'r adroddiad oedd yn nodi'r broses yr oedd y Cyngor yn mynd drwyddi a sut yr oedd yn bwriadu ymgorffori heriau Prosiect Sero o fewn ei waith, ac ychwanegodd ymhellach fod y Cyngor hefyd yn gwneud ei orau i wneud ysgolion yn ddi-garbon.

I gloi, dywedodd yr Arweinydd ei bod yn bwysig i'r Cyngor ymgysylltu â phobl ifanc a grwpiau cymunedol eraill gan gydnabod bod rhaglen adeiladu'r Cyngor hefyd yn gweithio tuag at ôl troed di-garbon.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD y trefniadau llywodraethu ar gyfer Prosiect Sero (Atodiad A i'r adroddiad) yn cael eu cymeradwyo.
- (2) BOD y Briff Prosiect ar gyfer Prosiect Sero (Atodiad B i'r adroddiad) yn cael ei gymeradwyo.
- (3) BOD cytuno ar y ffordd ymlaen ar gyfer cyflwyno Prosiect Sero a gynigiwyd gan y Bwrdd Prosiect fel y disgrifir yng nghorff yr adroddiad.
- (4) Nodi BOD y Bwrdd Prosiect yn mynd i sicrhau alinio gyda'r gweithgareddau a wneir fel rhan o'r ymateb i'r argyfwng natur a ddatganwyd gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2021.
- (5) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau, a'r Pwyllgor Craffu Amgylchedd ac Adfywio i'w ystyried.
- (6) BOD yr adroddiad yn cael ei ddsbarthu i holl Aelodau etholedig Cyngor Bro Morgannwg, Cyngorau Tref a Chymuned a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er gwybodaeth iddynt.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Cymeradwyo'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Prosiect Sero.
- (2) Cymeradwyo Briff y Prosiect ar gyfer Prosiect Sero.
- (3) Cymeradwyo'r ffordd ymlaen a gynigiwyd gan y Bwrdd Prosiect Sero.
- (4) Cadarnhau a sicrhau y byddai'r gwaith ar newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng natur yn digwydd ochr yn ochr.
- (5) Galluogi'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau a Phwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio i ystyried sut mae Prosiect Sero yn cael ei ddatblygu.
- (6) Cyngori pawb ar y trefniadau sydd ar waith i gyflawni Prosiect Sero.

C707 DIWEDDARIAD CHWARTER 1 Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL (AG/BA) (CRAFFU - PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -

Rhoddodd yr adroddiad drosolwg i Aelodau'r Cabinet o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ar gyfer Chwarter 1 (Ebrill 2021-Mehefin 2021). Ymgorfforwyd dadansoddiad risg o fewn yr Adroddiad Cryno ar Risg Corfforaethol (Atodiad A) oedd yn galluogi'r swyddogion a'r Aelodau i nodi ac i asesu tueddiadau a natur

No.

drawsbynciol risgiau gyda'r gallu i archwilio'n fanwl fanylion risgiau yn ôl yr angen. Ystyriwyd yr adroddiad ar y cyd â'r cyfeiriad gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Medi, 2021 fel y cyfeiriwyd ato'n gynharach yn yr agenda.

Dyweddodd yr Arweinydd fod yr adroddiad wedi'i rannu'n adrannau a thynnodd sylw'r Aelodau at baragraffau 2.13 – 2.18 a oedd yn cyfeirio at y risgiau sy'n gysylltiedig â Covid-19. Wrth gyfeirio at gyflwyno'r brechiad ar gyfer pobl ifanc 12 – 15 oed erbyn hanner tymor mis Hydref, dywedodd yr Arweinydd fod yr amserlen hon wedi llithro ychydig ond bod y cyfleoedd ar gael o hyd.

O ystyried Brexit, tynnodd yr Arweinydd sylw at y ffaith ei fod wedi cael gwybod bod y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i bob plentyn sy'n ddinasyddion yr U.E gael aros yn y DU wedi'i ymestyn ond ei fod bellach wedi dod i ben, er bod ceisiadau'n dal i gael eu prosesu ar gyfer y rhai sy'n gymwys o fewn y cynllun. Roedd materion eraill y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad yn ymwneud â sefyllfa bresennol gyrwyr HGV, y problemau'n gysylltiedig ag argaeledd deunyddiau, colli cyllid ar gyfer adfywio a gwasanaethau cynllunio a'r problemau wrth recriwtio staff ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol. Wrth gydnabod bod nifer o faterion y byddai'n rhaid i'r Cyngor fod yn ymwybodol ohonynt wrth symud ymlaen gan gynnwys y gweithlu a materion diogelu, derbyniwyd bod yr adroddiad yn un cynhwysfawr.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r cyfeirnod a phob mater a phob goblygiad ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) BOD sefyllfa risgiau corfforaethol Chwarter 1 ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mehefin 2021 yn cael ei nodi fel yr amlinellir yn Atodiad A.

(2) BOD y Gofrestr Risg Gorfforaethol ar gyfer Chwarter 1 a'r Adroddiad Cryno ar Risg Corfforaethol cysylltiedig yn cael ei gymeradwyo.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Rhoi ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad a'r cyfeirnod a thrafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Sicrhau goruchwyliaeth effeithiol o'r risgiau corfforaethol a galluogi'r Cabinet i archwilio materion a chamau gweithredu allweddol i'w cymryd fel yr amlinellir yn Atodiad A.

C708 DEFNYDDIO PWERAU ARGYFWNG Y RHEOLWR GYFARWYDDWR (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) -

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybod i'r Cabinet am y ffordd y mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr wedi arfer Pwerau Brys ers yr adroddiad diwethaf ar 13 Medi 2021.

No.

Manteisiodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac lechyd ar y cyfle i ddiolch a llongyfarch y Cyngorydd Gwyn John mewn perthynas â'i benodiad yn Eiriolwr dros Ofalwyr.

Tynnodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio sylw'r Cabinet at y wobwr ariannol a dderbyniwyd ar gyfer mynd i'r afael â thlodi bwyd a delio ag ansicrwydd bwyd (Pod Bwyd Penarth) sydd â'r nod o ddarparu cyfleuster er lles cymdeithasol, gyda'r bwriad o wella iechyd tenantiaid a phreswylwyr lleol, gan ddweud bod hon yn wir yn fenter wych.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD – BOD y defnydd o Bwerau Brys gan y Rheolwr Gyfarwyddwr fel y'u cynhwysir yn yr adroddiad yn cael ei nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Rhoi ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C709 YMATEB DRAFFT I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR LUNIO DYFODOL CYMRU : DEFNYDDIO DANGOSYDDION A CHERRIG MILLTIR CENEDLAETHOL I FESUR CYNNYDD EIN CENEDL (AG/BA) (CRAFFU - PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar gynigion ar gyfer y don gyntaf o gerrig milltir cenedlaethol i Gymru a fyddai'n cynorthwyo Gweinidogion i asesu cynnydd tuag at gyflawni'r saith nod Llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gofynnodd yr ymgynghoriad hefyd a oedd angen gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r dangosyddion cenedlaethol presennol yn dilyn profiadau pandemig COVID-19.

Cynigiwyd naw carreg filltir genedlaethol yn ogystal â newidiadau i'r set o ddangosyddion llesiant cenedlaethol.

Roedd yr adroddiad yn atodi (Atodiad A) dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru ac (Atodiad B) ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad. Gofynnwyd i'r Cabinet ystyried cynnwys ymgynghoriad Llywodraeth Cymru a chymeradwyo'r ymateb drafft i'r ymgynghoriad i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 26 Hydref, 2021.

Oherwydd y dyddiad cau ar gyfer ymateb, ceisiwyd cymeradwyaeth y Cabinet hefyd i gytuno ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys fel y nodir yn Adran 14:14 o Gyfansoddiad y Cyngor er mwyn cyfeirio'r mater at Lywodraeth Cymru cyn y dyddiad cau ar gyfer ymatebion.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

No.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD cynnwys dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru (sydd wedi'i hatodi yn Atodiad A i'r adroddiad) yn cael ei nodi a bod yr ymateb drafft i'r ymgynghoriad (sydd wedi'i atodi yn Atodiad B i'r adroddiad) yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 26 Hydref, 2021.

(2) BOD cytundeb ar ddefnydd y Weithdrefn Penderfyniadau Brys fel y nodir yn Adran 14:14 o Gyfansoddiad y Cyngor er mwyn cyfeirio'r mater at Lywodraeth Cymru cyn y dyddiad cau ar gyfer ymatebion.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) O ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod ac i ganiatáu i'r ymateb drafft i'r ymgynghoriad gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

(2) Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

C710 TRAWSNEWID TREFI: CEFNOGAETH I WELLA CANOL TREFI (DA/AA) (CRAFFU – AMGYLCHEDD AC ADFYWIO) -

Cyflwynodd yr adroddiad drosolwg o raglen fuddsoddi Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru i'w hystyried.

Lansiwyd y Rhaglen Trawsnewid Trefi gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020 i fynd i'r afael â'r dirywiad yng nghanol trefi a dinasoedd a'r lleihad yn y galw am fanwerthu ar y stryd fawr. Roedd y Cyngor yn blaenoriaethu ei gyfran o'r rhaglen fuddsoddi hon yn yr ardaloedd siopa canlynol yng nghanol trefi ac ardaloedd (fel y'u diffinnir yng Nghynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011 - 2026): y Stryd Fawr / Broad Street, Canol Tref y Barri; Heol Holltwn, Canol Tref y Barri; Canol Tref y Bont-faen; Canol Tref Llanilltud Fawr; a Chanol Tref Penarth.

Argymhellodd yr adroddiad y dylid cymeradwyo pwerau dirprwyedig i gwblhau'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer Grant Creu Lleoedd 2021/22 a Chronfa Fusnes 2021/22 (Argymhellion 2 a 3) ac i awdurdodi grantiau ar gyfer trydydd partïon yn Heol Holltwn, Canol Tref y Barri (Argymhelliad 4). Argymhellodd yr adroddiad hefyd bwerau dirprwyedig i gymeradwyo'r defnydd o Grant Creu Lleoedd 2021/22 a Chronfa Fusnes 2021/22 (Argymhelliad 5).

Ymhellach argymhellodd yr adroddiad bwerau dirprwyedig (Argymhelliad 6) i baratoi, cwblhau a gweithredu'r dogfennau cyfreithiol gofynnol gyda thrydydd partïon at y dibenion a amlinellir ym mharagraffau 2.11 o'r adroddiad; a phwerau dirprwyedig i benodi cyflenwyr / darparwyr trydydd parti lle bo angen (Argymhellion 7 ac 8).

No.

Dyweddodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio fod y rhaglen yn uchelgeisiol ac yn arloesol gyda'r Cyngor hefyd wedi cael grant refereniw ar gyfer 2021/22 i ariannu'n rhannol y gwaith o baratoi rhaglen adfywio 20 mlynedd ar gyfer y Barri.

Tynnodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio sylw at y gwaith parhaus ar gyfer Llanilltud Fawr yn dilyn rhywfaint o fuddsoddiad yn ystod y misoedd diwethaf. Manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i gadarnhau y byddai'r Cyngor yn blaenoriaethu ei gyfran o'r rhaglen Trawsnewid Trefi o fuddsoddiadau yn ardaloedd siopa canol trefi ac ardaloedd fel y nodir ym mharagraff 2.1 o'r adroddiad.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD y cynnydd a wnaed o ran y rhaglen fuddsoddi Trawsnewid Trefi yn cael ei nodi.
- (2) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Adfywio a Chynllunio (mewn ymgynghoriad â'r Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio, y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd) i ymgymryd â'r holl gamau angenrheidiol i gytuno ar delerau'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer Grant Creu Lleoedd 2021/22 a Chronfa Fusnes 2021/22.
- (3) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i baratoi, cwblhau a gweithredu'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer y Grant Creu Lleoedd 2021/22 a Chronfa Fusnes 2021/22.
- (4) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Adfywio a Chynllunio (mewn ymgynghoriad â'r Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio, y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd) i gymeradwyo grantiau yn Heol Holltwn, Canol Tref y Barri fel yr amlinellir ym mharagraff 2.5 yr adroddiad; a bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i baratoi, cwblhau a gweithredu'r dogfennau cyfreithiol gofynnol gydag ymgeiswyr grant trydydd parti.
- (5) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Adfywio a Chynllunio (mewn ymgynghoriad â'r Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio, y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 i gymeradwyo defnydd Grant Creu Lleoedd 2021/22 a Chronfa Fusnes 2021/22.
- (6) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i baratoi, cwblhau a gweithredu'r dogfennau cyfreithiol gofynnol â thrydydd partiön at y dibenion a amlinellir ym mharagraff 2.11 o'r adroddiad.

(7) Bod y Pennaeth Adfywio a Chynllunio (mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd) yn cael eu hawdurdodi i drafod telerau ac amodau ar gyfer penodi cyflenwyr / darparwyr trydydd parti lle bo angen.

(8) Bod y Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151) yn cael ei awdurdodi i baratoi, cwblhau a gweithredu'r dogfennau cyfreithiol gofynnol i alluogi cyflenwyr / darparwyr trydydd parti i gael eu penodi lle bo angen.

(9) Bod newidiadau i Raglen Gyfalaf 2021/22 fel yr amlinellir ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad yn cael ei gymeradwyo; a bod newidiadau i'r gyllideb refeniw fel yr amlinellir ym mharagraffau 4.2 a 4.3 o'r adroddiad yn cael eu cymeradwyo.

(10) Bod y defnydd o erthygl 14.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor (gweithdrefn benderfynu mewn argyfwng) yn cael ei gytuno mewn perthynas â'r penderfyniadau uchod.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) O roi ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2a3) Cael awdurdod i ymrwmo i Gytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer Grant Creu Lleoedd 2021/22 a Chronfa Fusnes 2021/22.

(4) Cael awdurdod i gymeradwyo grantiau yn Heol Holltwn, Canol Tref y Barri fel yr amlinellir ym mharagraff 2.5 o'r adroddiad; a pharatoi, cwblhau a gweithredu'r dogfennau cyfreithiol gofynnol gydag ymgeiswyr grant trydydd parti.

(5) Cael awdurdod i gymeradwyo'r defnydd o Grant Creu Lleoedd 2021/22 a Chronfa Fusnes 2021/22.

(6) Cael awdurdod i baratoi, cwblhau a gweithredu'r dogfennau cyfreithiol gofynnol â thrydydd parti at y dibenion a amlinellir ym mharagraff 2.11 o'r adroddiad.

(7ac8) Cael awdurdod i benodi cyflenwyr / darparwyr trydydd parti; ac wrth wneud hynny, cyfrannu at ddarparu cyfleoedd buddsoddi a datblygu yn y dyfodol yng nghanol trefi Bro Morgannwg.

(9) Cael awdurdod i gynnwys y cyllid o fewn Rhaglen Gyfalaf 2021/22 a'r gyllideb refeniw.

(10) Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

No.

C711 SAFON ANSAWDD TAI CYMRU (SATC) TAI: CYNLLUN ADNEWYDDU INSWLEIDDIO WALIAU ALLANOL 2021-22 (WTA) (CRAFFU – TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL) -

Rhoddodd yr adroddiad wybod i'r Cabinet am y broses dendro ar gyfer cyflawni Cynllun Adnewyddu Inswleiddio Waliau Allanol SATC 2021-22.

Byddai cais i'r Cabinet gytuno ar y tendrwr mwyaf manteisiol yn economaidd ar gyfer y cynllun hwn drwy adroddiad Rhan II yn ddiweddarach yn yr agenda.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried y sylwadau

PENDERFYNWYD – BOD cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi, gyda'r bwriad o wneud penderfyniadau ar ddyfarnu'r contract a nodir yn adroddiad Rhan II yn ddiweddarach ar yr agenda.

Y rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn i'r adroddiadau Rhan I a Rhan II gael eu hystyried gyda'i gilydd.

C712 CLWB TENIS Y BONT FAEN – TIR AR GYFER LLYSOEDD NEWYDD (HCD) (CRAFFU – BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL) -

Dechreuodd yr Aelod Cabinet dros Hamdden, y Celfyddydau a Diwylliant drwy ddweud bod Clwb Tennis y Bont-faen yn bwriadu adeiladu dau Gwrt Tennis arall ar ei safle presennol. Roedd y Clwb wedi sicrhau'r arian angenrheidiol ar gyfer y datblygiad ac eisoes yn berchen ar y rhan fwyaf o'r tir ar y safle ac roedd bellach yn gofyn am brydles hirdymor ar ddau ddarn bychan o dir sydd ym mherchnogaeth y Cyngor i wneud lle ar gyfer y cyrtiau newydd arfaethedig.

Ar hyn o bryd, gan nad oedd unrhyw gyrtiau cyhoeddus yn y Bont-faen, roedd y Clwb wedi caniatáu i bobl nad oeddent yn aelodau archebu eu cyrtiau presennol ar adegau penodol. Felly, roedd yr Aelod Cabinet dros Hamdden, y Celfyddydau a Diwylliant yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i brydlesu'r tir ar rent isel o £1.00 y flwyddyn ar yr amod nad oedd unrhyw wrthwynebiad cyhoeddus. Cynigiwyd hefyd bod y cytundeb ar gyfer y brydles yn cynnwys y cyfyngiad ar ddefnyddio'r tir at ddefnydd hamdden fel cyrtiau tennis a bod y cyrtiau newydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio am 10 awr yr wythnos. Roedd y rhent isel yn cael ei gynnig o ystyried y budd ehangach y byddai'n ei roi i'r cyhoedd.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaidd i hysbysebu'r bwriad i waredu'r man agored cyhoeddus ar ffurf trosglwyddo yn unol ag a123(2A) Deddf Llywodraeth Leol 1972.
- (2) BOD - yn amodol ar beidio derbyn unrhyw wrthwynebiadau cyhoeddus - buddiant lesddeiliaid hirdymor yn cael ei roi ar ddau ddarn bach o dir yn y Bont-faen er mwyn caniatáu adeiladu dau Gwrt Tennis newydd sy'n hygyrch i'r cyhoedd yn y Bont-faen ar rent isel o £1.00 y flwyddyn.
- (3) BOD y Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaidd, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid a Chyfarwyddwr yr Amgylchedd a Gwasanaethau Tai, yn cael eu hawdurdodi i baratoi, gweithredu a chwblhau'r dogfennau cyfreithiol gofynnol i'w trosglwyddo a'u defnyddio.
- (4) BOD unrhyw gostau cyfreithiol a thirfesur sy'n deillio o drosglwyddo'r tir yn cael eu pasio mlaen i'r Clwb Tennis.
- (5) BOD Clwb Tennis Y Bont-faen yn parhau â'u hymrwymiad i ganiatáu i bobl nad ydynt yn aelodau archebu dau gwrt ar adegau penodol drwy warantu mynediad i'r cyhoedd am o leiaf 10 awr yr wythnos fel rhan o drefniadau'r brydles.
- (6) BOD y gofynion mynediad angenrheidiol ar gyfer y Clwb Tennis yn cael eu cymeradwyo yn ystod cyfnod adeiladu'r gwaith ar yr amod bod yr ardal yn cael ei hadfer i'w chyflwr blaenorol ar ôl cwblhau'r gwaith, gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau i'r cynllun draenio priffyrdd cyfagos.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol.
- (2) Cefnogi Tennis y Bont-faen i gynyddu cyfleoedd i bobl chwarae Tennis yn yr ardal leol.
- (3) Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol.
- (4) Cydymffurfio â phrotocol codi tâl safonol.
- (5) Sicrhau nad yw'r Cyrtiau'n cael eu defnyddio gan aelodau'r clwb yn unig.
- (6) Caniatáu i'r Cyrtiau Tennis newydd gael eu hadeiladu

C713 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes

No.

ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

C714 SAFON ANSAWDD TAI CYMRU (SATC) TAI: CYNLLUN ADNEWYDDU INSWLEIDDIO WALIAU ALLANOL 2021-22 (WTA) (CRAFFU – TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 14 AND 12A) -

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet i dderbyn y tendr mwyaf manteisiol yn economaidd ar gyfer Cynllun Adnewyddu Inswleiddio Waliau Allanol SATC 2021/22.

Felly, argymhellodd yr Aelod Cabinet dros Dai a Gwasanaethau Adeiladau y dylid dyfarnu'r tendr i SMK Building and Maintenance Ltd a bod y Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn cael ei ddirprwyo i baratoi a gweithredu'r contract drwy gontract Gwaith Canolradd JCT 2016.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD dyfarnu'r contract i SMK Building and Maintenance Ltd. yn cael ei gymeradwyo.
- (2) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, i baratoi a gweithredu contract canolradd JCT 2016 gyda SMK Building and Maintenance Ltd.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Fel y tendr mwyaf manteisiol a dderbyniwyd ac i gydymffurfio â Rheolau Sefydlog Contract y Cyngor, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gontractau sydd â gwerth dros £300k gael eu hawdurdodi gan y Cabinet.
- (2) Galluogi dogfennau'r contract i gael eu cwblhau gyda'r contractwr llwyddiannus.